

Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Y Swyddfa Gartref - Adolygiad Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phwerau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Yn cau 22 Mai 2023

Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein

Holiadur

Rhan 1

1. Ydych chi'n credu dylai'r asesiad strategol gynnwys manylion ynglŷn â sut mae'r CSP wedi darparu ei Chynllun Heddlu a Throsedd PCC?

Nac Ydw

2. Ydych chi'n credu y dylai grŵp strategaeth y CSP anfon copi o'i hasesiad strategol i'w PCC?

Ydw

3. Ydych chi'n credu y dylai CSPau gyhoeddi eu hasesiad strategol a/neu grynodedb gweithredol o'u hasesiad strategol?

Ydw (Asesiad Strategol llawn a chrynodedb gweithredol)

4. Ydych chi'n credu y dylai grwpiau strategaeth CSP yng Nghymru anfon copi o'u cynllun partneriaeth i'w PCC? Os nad ydych chi'n gweithredu mewn cyd-destun Cymreig byddwch cystal â dewis 'Ddim yn berthnasol'

Ydw

5. Ydych chi'n credu y dylai PCCau arddangos eu bod wedi talu sylw priodol i flaenoriaethau'r awdurdodau cyfrifol syddyn ffurfio'r PCCau yn eu hardal plismona?

Ydw

6. Yn eich barn chi, pa gamau eraill gellid eu cymryd i wella'r ffordd mae PCCau yn gweithio gyda CSPau?

Testun Agored (Terfyn o 250 o eiriau)

Yng Nghymru mae tair o'r pedair Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn eistedd ar y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac ar y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n eistedd uwch eu pennau (yng Nghymru). Mae eu presenoldeb yn sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y gwaith paratoi yn ogystal â'r ddogfennaeth derfynol, ac ar gyfer gwybodaeth a gorgyffwrdd rhwng y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a Chynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynwyr. Mae bod yn aelod cyfartal a gwerthfawr o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn galluogi gweithio mewn partneriaeth a thrafodaeth barhaus, mae hefyd yn galluogi cydblethu, yn lleihau dyblygu, ac yn gweithio i atal bylchau rhwng y gwahanol elfennau.

Wrth holi partneriaid o'r Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ac Awdurdodau Lleol mewn gweithdy, fe wnaethant i gyd godi pryderon am ddiffyg mawr mewn gwybodaeth yn yr ymgynghoriad a gofynnwyd am wybodaeth fanylach er mwyn darparu ymatebion mwy llawn. Mae nifer y gwahanol asesiadau strategol sydd eu hangen i wahanu trais difrifol, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain at fwy o gymhlethdod a'r angen am fwy o adnoddau ar gyfer dadansoddwyr data. Er bod cyllid yn arfer cael ei ddarparu i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gael dadansoddwyr data, mae'r cyllid hwn bellach yn mynd i'r Comisiynwyr. Mae perygl mai'r Comisiynydd fydd yr unig un sydd â dadansoddwyr ac a fydd yn gorchymyn o wybodaeth gyfyngedig sy'n mynd i mewn i'r Cynlluniau Heddlu a Throsedd, tra bod y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cael eu gadael ag adnoddau cyfyngedig neu ddim adnoddau o gwbl i gyflawni mewn tirwedd gymhleth i gyrraedd unigolion a chymunedau yn gynt i atal unrhyw ddwysâd sy'n mynnu mewnbwn cyfiawnder troseddol.

7. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei roi i gefnogi'r atebion a roesoch i'r cwestiynau blaenorol?

Testun Agored (Terfyn o 250 o eiriau)

Mae'r Asesiad Strategol eisoes wedi'i gynhyrchu felly gellid ei gyhoeddi, ac mae'r Cynlluniau Lles ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi yng Nghymru. Fodd bynnag, dylid nodi bod Asesiad Anghenion Strategol yn amser i fyfyrion ac adnabod yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio. Eu prif bwrpas yw nodi'r materion a'r bylchau presennol fel y gellir eu llenwi, felly ni fyddai'n briodol iddo fod yn adolygiad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throsedd ar wahân i'r hyn sydd eisoes yn digwydd. Lle mae'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cyflawni elfennau o'r Cynllun Heddlu a Throsedd, dylai adolygiad fod yn cael ei gynnal eisoes. Byddem yn cynnig y dylai unrhyw adolygiad ehangach fod o natur fwy strategol ac yn rhan o gynlluniau a strategaethau a ddatblygir o'r asesiad anghenion.

Mae'r Comisiynwyr sy'n eistedd ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd yn berchen ar yr asesiadau a'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt, gan eu bod yn rhan o'u datblygiad ac yn cytuno fel rhan o'r broses gymeradwyo. Mae gofyniad eisoes i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol roi sylw dyledus i'r Cynlluniau Heddlu a Throsedd felly yn hytrach na phwerau newydd, dylai fod mwy o ffocws ar gyflawni yn erbyn y ddeddfwriaeth bresennol.

Mae arweinwyr Diogelwch Cymunedol ac aelodau o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol eisoes wedi'u hymestyn gan y rolau a'r dyletswyddau y mae angen iddynt eu cyflawni. Mae awydd i barhau i ddatblygu'r cysylltiadau ar draws yr holl bartneriaid gan gynnwys y Comisiynwyr, ond pryder ynghylch gofynion ychwanegol heb unrhyw adnoddau ychwanegol.

Holiadur: Rhan 2

8. Ydych chi'n credu y dylai fod gan PCCau ran fwy gweithgar wrth ryngweithio gyda CSPau er mwyn gyrru darpariaeth y blaenoriaethau yn eu Cynlluniau Heddlu a Throsedd? Byddwch crystal â rhoi unrhyw destun ychwanegol i gefnogi eich ateb.

Ddim yn Gwybod

Testun Agored (Terfyn o 250 o eiriau)

Yng Nghymru mae tri CHTh neu staff o'u swyddfeydd yn eistedd ar y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac yn cymryd rhan yn agored ym mhob trafodaeth gan gynnwys blaenoriaethau, mae gan y pedwerydd ddrws agored i'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac mae'n ymwneud â phartneriaethau eraill i gefnogi'r agenda. Mae tystiolaeth lle mae perthynas gyfartal, mae'n fwy tebygol y bydd llif hawdd rhwng y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Cynlluniau Heddlu a Throsedd.

Mae'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn eistedd o dan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, gan gysylltu ag eraill fel Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol, Byrddau Rhanbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), a Byrddau Diogelu Rhanbarthol (pob un o bosibl yn cyflawni Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Heddlu a Throsedd). Cynllun blaenoriaethau). Mae gwahaniaethau o ran lleoliad pethau oherwydd y dirwedd bartneriaeth wahanol ac felly'r elfen bwysig yw i bawb gael llais cyfartal. Mae swyddogion etholedig o Gynghorau ochr yn ochr â'r Comisiynwyr a'u swyddogion yn cymryd rhan, credir bod hyn yn gweithio'n dda ac yn galluogi partneriaethau cryfach.

Mae Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cynnwys cynrychiolaeth o wasanaethau'r heddlu, awdurdodau lleol, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth prawf, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector ac mae'n cael ei gyd-gadeirio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a llefarydd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Codir materion o bwys cenedlaethol i'r Bwrdd, a rhennir gwybodaeth gan y Bwrdd i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae'r system hon yn gweithio'n dda ac yn cynnal y cydbwysedd rhwng y cyrff cyhoeddus datganoledig a'r cyrff cyhoeddus a gadwyd yn ôl ac yn galluogi uwchgyfeirio lle bo'n briodol ar gyfer trafodaethau ac atebion manylach ar lefelau priodol.

9. Ydych chi'n credu y dylai fod gan PCCau bŵer i adolygu asesiad strategol y CSPau?

Nac ydw

10. Ydych chi'n credu dylai fod gan PCCau bŵer i wneud argymhellion ynglŷn â gweithgarwch CSPau i gefnogi darpariaeth yr amcanion a osodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a thywys gweithgarwch y Partneriaethau er mwyn sicrhau darparu gwell deilliau ar gyfer cymunedau lleol?

Nac ydw

11. Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i gwestiwn 10, ydych chi'n credu y dylai hi fod yn ofynnol ar CSPau i gymryd yr argymhellion hynny i ystyriaeth? Os mai 'Nac Ydw' neu 'Ddim yn Gwybod' oedd eich ateb i Gwestiwn 10, byddwchystal â dewis 'Ddim yn Berthnasol'

Ddim yn Berthnaso

12. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei roi i gefnogi'r atebion a roesoch i'r cwestiynau blaenorol?

Testun Agored (Terfyn o 250 o eiriau)

Os yw'r Comisiynwyr yn bartneriaid gweithredol yn y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yna maent yn ymwneud â datblygu'r asesiadau a dogfennau eraill felly nid oes angen iddynt wneud argymhellion ychwanegol. Dylai unrhyw ddata a thystiolaeth y maent wedi'u defnyddio i ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throsedd fod ar gael fel rhan o ddatblygiad yr asesiad a byddai wedyn yn rhan o'r broses ar gyfer partneriaid. Gall fod yn bosibl bod blaenoriaeth neu argymhelliad gan y CHTh yn benodol i safbwynt yr heddlu cyfan ond nid i ardal ddaearyddol lai, sy'n debygol o arwain at amrywiadau lleol.

Mae Cynlluniau Heddlu a Throsedd yn aml yn mynd y tu hwnt i gylch gorchwyl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sy'n cwmpasu meysydd fel ystâd yr Heddlu a cherbydau. Mae yna hefyd risg bosibl y bydd diogelwch cymunedol yn mynd yn ormod o gymhelliant gwleidyddol yn hytrach na chanolbwyntio ar y cymunedau, y dioddefwyr a'r cyflawnwyr. Mae posibilrwydd yn y dyfodol y gallai Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd geisio gogwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i gyd-fynd â'u hagenda eu hunain a phe bai hynny'n digwydd byddai'n niweidiol i waith partneriaeth ac yn lleihau llais y cymunedau eu hunain. Dylai cynnal rôl a pherthynas gyfartal leihau'r risg hwn.

Wrth ymgynghori â'n haelodau dywedont eu bod yn teimlo mai'r hyn sy'n allweddol yw bod y Comisiynwyr yn cael eu hymgorffori o fewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol fel eu bod yn cymryd rhan yn hytrach na bod yn gwbl ar wahân i'r broses.

13. Os oes yna unrhyw wybodaeth bellach yr ydych yn credu y dylid ei gymryd i ystyriaeth, rhowch fanylion os gwelwch yn dda:

Testun Agored (Terfyn o 250 o eiriau)

Mae gan bob Comisiynydd Heddlu a Throsedd wahanol ddemograffeg gydag ystod o wahanol amgylcheddau. Yng Nghymru, er bod gan bob ardal Cyngor Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol unigol, mae yna hefyd lwybrau uwchgyfeirio i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol mwy rhanbarthol yn ogystal â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd â safbwynt mwy strategol. Er enghraifft, yn Ne Cymru mae saith ardal awdurdod lleol a chwe Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar hyn o bryd, yng Ngwent mae pum ardal awdurdod lleol gyda'u Partneriaethau Diogelwch Cymunedol eu hunain, ond yna mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol rhanbarthol lle gellir cymryd materion, pryderon a safbwynt heddlu cyfan. Ni fyddai model Gwent yn gweithio i Dde Cymru oherwydd bod y strwythur rhanbarthol yn wahanol. Yn Ne Cymru mae tri bwrdd iechyd, dau wasanaeth tân ac yno hefyd mae dwy ddinas fwyaf

Cymru. Mae cymhlethdodau ychwanegol sy'n deillio o ardaloedd datganoledig a heb eu datganoli o fewn yr haenau partneriaeth yn golygu bod perthnasoedd yn bwysicach fyth i lwyddiant y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gan gynnwys y Comisiynwyr yn cael llais a mewnbwn cyfartal.

Mae diogelwch cymunedol yn fwy na dim ond plismona a throedd. Mae diogelwch a chydlyniant cymunedol llwyddiannus yn atal gweithgarwch rhag gwaethygu i lefel droseddol. Mae ymyriadau a chymorth yno nid yn unig i atal aildroseddu neu droseddau mwy difrifol, ond hefyd er mwyn eu hatal rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol o gwbl. Er bod hyn yn anoddach i'w dystio nag 'a yw rhywun yn aildroseddu', mae'n bwysig gan ei fod yn lleihau'r niferoedd sydd angen y system cyfiawnder troseddol gan wneud i unigolion a chymunedau nid yn unig deimlo'n fwy diogel ond hefyd dod yn fwy diogel.

Holiadur: Rhan 3

14. Sut (os o gwbl) mae eich PCC lleol yn gweithio ar hyn o bryd gyda'ch CSP wrth roi'r Adolygiad Achos ASB ar waith

Aml ddewis:

- x Yn archwilio adolygiadau achos blaenorol
- x Yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r broses
- Yn mynychu cyfarfodydd adolygu achos fel parti annibynnol
- Yn ymgynull y cyrff perthnasol i ymgymryd â'r Adolygiad Achos ASB
- x Yn cynnig trywydd i ddiodefwyr allu ymholi ynglŷn â phenderfyniadau a wnaed yn yr Adolygiad Achos ASB
- x Yn cynnig cyfarwyddyd i'r cyrff perthnasol ar y broses Adolygu Achos ASB
- x Yn monitro'r defnydd a wneir o'r Adolygiad Achos ASB i adnabod dysgu ac ymarfer gorau
- x Dydy'r PCC ddim yn cymryd unrhyw ran yn y broses Adolygu Achos ASB
- Ddim yn gwybod
- Arall – byddwch cystal â manylu (yn agored)

15. Pa werth ychwanegol (os o gwbl) ydych chi'n credu gallai eich PCC lleol gynnig i'r broses Adolygu Achos ASB?

Aml ddewis:

- x Archwilio adolygiadau achos blaenorol
- x Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r broses
- Mynychu cyfarfodydd adolygu achos fel parti annibynnol
- x Ymgynull y cyrff perthnasol i ymgymryd â'r Adolygiad Achos ASB
- Cynnig trywydd i ddiodefwyr allu ymholi ynglŷn â phenderfyniadau a wnaed yn yr Adolygiad Achos ASB
- x Cynnig cyfarwyddyd i'r cyrff perthnasol ar y broses Adolygu Achos ASB
- x Monitro'r defnydd a wneir o'r Adolygiad Achos ASB i adnabod dysgu ac ymarfer gorau

- Dydw i ddim yn credu y dylai'r PCC gymryd unrhyw ran yn y broses Adolygu Achos ASB
- Mae PCCau eisoes yn gwneud digon i gefnogi'r broses Adolygu Achos ASB
- Ddim yn gwybod
- Arall - byddwch cystal â manylu (yn agored)

16. Sut (os o gwbl) mae eich CSP yn ymgysylltu â'r PCC ar strategaeth a data ASB?

- Mae'n cynnig data ar y nifer o ddigwyddiadau ASB a gafodd eu riportio
- Mae'n cynnig data ar y mathau o ddigwyddiadau ASB a gafodd eu riportio
- Mae'n cynnig data ar ba asiantaeth neu sefydliad fydd yn derbyn adroddiadau
- Mae'n cynnig data ar y nifer o weithiau bydd cais yn cael ei wneud am Adolygu Achos ASB
- Mae'n cynnig data ar ddeilliau Adolygiadau Achos ASB
- Mae'n ymgysylltu drwy gyfrwng ymgynghoriadau er mwyn goleuo strategaeth ASB
- Mae'n cynnig diweddariadau cynnydd ar weithredu'r strategaeth
- Mae'n cynnig gwerthusiadau neu ganlyniadau ymyrraethau strategaeth
- Mae'n cynnig data ar ble fydd achosion o ASB yn digwydd/mannau problemus
- Nid yw fy CSP yn ymgysylltu ar hyn o bryd gyda'r PCC ynglŷn â strategaeth na data ASB
- Ddim yn gwybod
- Arall - byddwch cystal â manylu (yn agored)

17. Pa ddata a gwybodaeth ynglŷn â strategaeth ASB (os o gwbl) sydd ar gael i'w rannu rhwng CSPau a PCCau?

- Data ynglŷn â'r nifer o ddigwyddiadau ASB a riportwyd
- Data ynglŷn â'r mathau o ddigwyddiadau ASB a riportwyd
- Data ar ble fydd achosion o ASB yn digwydd/mannau problemus
- Data ar ba asiantaeth neu sefydliad fydd yn derbyn adroddiadau
- Data ar y nifer o weithiau bydd datrysiadau/pwerau yn cael eu defnyddio
- Mae'n cynnig data ar y nifer o weithiau bydd cais yn cael ei wneud am Adolygu Achos ASB
- Data ar ddeilliau Adolygiadau Achos ASB
- Diweddariadau cynnydd ar weithredu'r strategaeth
- Gwerthusiadau neu ganlyniadau ymyrraethau strategaeth
- Does dim byd ar gael i'w rannu rhwng CSPau a PCCau ynglŷn â strategaeth na data
- Ddim yn gwybod
- Arall - byddwch cystal â manylu (yn agored)

Holiadur: Rhan 4

Pwerau gwasgaru

18. Ar hyn o bryd dim ond yr heddlu all godi Pwerau Gwasgaru. A ddylid ymestyn y pwerau hyn i awdurdodau lleol?

- Dylid
 Na
 Ddim yn gwybod

19. Ar hyn o bryd, gellir codi Pwerau Gwasgaru am hyd at 48 awr yn unig. A ddylid cynyddu'r pŵer yma hyd at 72 awr?

- Dylid
 Na
 Ddim yn gwybod

20. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei gyflwyno i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau blaenorol?

Testun Agored (250 o eiriau)

Pan wnaethom ymgynghori â'n haelod-bartneriaid, mynegont bryderon ynghylch pwy fyddai â chyfrifoldeb a ble y byddai hyn yn cael ei reoli o fewn y cyngorau gan nad yw gorfodi'n digwydd yn aml o fewn timau diogelwch cymunedol. Heb adnoddau ychwanegol nid oedd yn glir sut y byddai hyn yn cael ei ddefnyddio a'i reoli. Mynegwyd pryder hefyd, er mai'r cyngor fyddai'n cytuno arno, gallai'r gorfodi ychwanegol baich ychwanegol heb ei gynllunio ar blismona.

Mewn egwyddor, mae'r syniad o ymestyn y pŵer fel y gellir ei gyhoeddi am 72 awr yn cael ei gefnogi gan y byddai hyn yn datrys problemau presennol a achosir gan benwythnosau tri diwrnod oherwydd gwyliau banc.

Pwerau profi am gyffuriau

21. Ar hyn o bryd mae gan yr heddlu'r pŵer i orfodi unigolion a arestiwyd i gael prawf cyffuriau pan fyddant yn y ddalfa. Ydych chi'n credu y dylid ymestyn y pwerau hyn i ganiatau'r heddlu i brofi am gyffuriau allan i'r ddalfa, fel mewn mannau cyhoeddus?

- Dylid
 Na
 Ddim yn gwybod

22. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei gyflwyno i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau blaenorol?

Testun Agored (250 o eiriau)

Cododd ein haelodau'r pwynt bod profion cyffuriau eisoes yn cael eu cynnal ar gyfer achosion o yrru dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau mewn mannau cyhoeddus neu mewn cerbydau. Mynegwyd pryderon ynghylch y baich ar yr heddlu, sicrhau bod profion yn dilyn arfer gorau a sut y byddai hynny'n gweithio pan fyddai'r heddlu ar droed yn economi'r nos yn hytrach na chael cerbyd sy'n gallu dal yr offer yn ddiogel a chynnal cywirdeb y prawf.

Cafwyd cwestiwn hefyd am y pwrpas a theimlwyd pe bai angen prawf ar unigolyn, y byddai fwy na thebyg mewn sefyllfa lle byddai'n cael ei arestio'n fuan os nad yw wedi'i arestio yn barod.

Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus a Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned

23. Ar hyn o bryd dim ond awdurdodau lleol all godi Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned. A ddylid ymestyn y pŵer hwn i'r heddlu?

- Dylid
- Na
- Ddim yn gwybod

24. Ar hyn o bryd gall awdurdodau lleol gyhoeddi Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) ar ôl ymgynghori â'r heddlu, PCC, perchennog neu feddiannydd tir yn yr ardal gyfyngedig a chynrychiolwyr cymunedol eraill y maent yn eu gweld yn dda. Os yw PSPOs yn cael eu hymestyn i'r heddlu a ddylai'r gofynion ymgynghori aros yr un fath? Os ateboch chi 'Na' neu 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiwn uchod, dewiswch 'Ddim yn berthnasol'

- Dylid
- Na
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn Berthnasol

25. Ar hyn o bryd gellir rhoi Hysbysiad Gwarchod y Gymuned i unrhyw berson 16 oed a throsodd, lle gall pwerau fel y Waharddeb Sifil a'r Ymddygiad Troseddol gael eu defnyddio gyda chyflawnwyr troseddau iau. A ddylid gostwng y terfyn oedran ar gyfer Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned?

- Dylid
- Na
- Ddim yn gwybod

26. Pe bai'r terfyn oedran yn cael ei ostwng ar gyfer Hysbysiad Gwarchod y Gymuned, i ba oedran y dylid gwneud hynny? Os mai 'Nac Ydw' neu 'Ddim yn Gwybod' oedd eich ateb i Gwestiwn 21, byddwch cystal â dewis 'Ddim yn Berthnasol'

X 10

11

12

13

14

15

Ddim yn gwybod

Ddim yn Berthnasol

27. Ar hyn o bryd £100 yw terfyn uchaf Hysbysiad Cosb Sefydlog ar gyfer torri Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned a Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus. A ddylid cynyddu'r terfyn uwch i £500?

X Dylid

Na

Ddim yn gwybod

28. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei gyflwyno i gefnogi eich atebion i'r cwestiynau blaenorol?

Testun Agored (250 o eiriau)

O ran Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus, teimlai ein haelodau fod gan yr Heddlu Offer a Phwerau eraill i reoli sefyllfaoedd ac na fyddai'r Gorchmyn yn cael ei ddefnyddio. Mynegwyd bod Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus eisoes yn cael eu cyflawni ar y cyd ac y dylai hynny fod yn wir bob amser ni waeth pwy sy'n eu rhoi mewn lle.

Gallai darparu adnoddau o amgylch gorfodi fod yn broblem os oes nifer cynyddol o Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus - mae'r heddlu eisoes yn cynorthwyo gyda gorfodi.

Dylai cysondeb o ran oedran ar gyfer Hysbysiadau Amddiffyn Cymunedol gyd-fynd ag oedran cyfrifoldeb troseddol ond dylid rhoi Rhybudd Gwarchod Cymunedol yn gyntaf i annog ymgysylltu â gwasanaethau a chodi difrifoldeb y sefyllfa. Gall ymwybyddiaeth y rheiny dan 16 oed o'r canlyniadau fod yn gyfyngedig. I lawer o bobl ifanc mae eu hymddygiad yn gysylltiedig â'u bregusrwydd neu eu sefyllfa a dylid archwilio hynny'n llawn cyn cymryd camau i leihau'r risg o droseddoli annheg. Dylai fod pwynt lle yr ymgysylltir â gwasanaethau atal. Dylid ystyried pob sefyllfa yn unigol, yn enwedig pan all y penderfyniad adael eraill, e.e. brodyr a chwiorydd, mewn mwy o berygl o fod yn agored i niwed.

Cydnabuwyd effeithiau posibl costau byw ar rieni sy'n wynebu mwy o ddirwy am dorri Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus neu Hysbysiad Amddiffyn

Cymunedol, ond credwyd bod y lefel bresennol yn rhy isel. Gan nad yw hysbysiadau am dorri amodau Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus bellach yn cael eu dosbarthu, ers cyflwyno Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys, roedd ymarferwyr yn poeni mwy am y lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan mai dim ond pan fydd Gwaharddeb Sifil yn ei le y cydnabyddir pa mor ddifrifol ydyw.

Pwerau cau

29. Ar hyn o bryd gellir gwneud cais am Orchmynion Cau dim hwyrach na 48 awr yn dilyn cyflwyno Hysbysiad Cau drwy'r llysoedd. A ddylid ymestyn y cyfnod amser hwn hyd at 72 awr?

Dylid

Na

Ddim yn gwybod

30. Ar hyn o bryd dim ond yr heddlu ac awdurdodau lleol all wneud cais am Hysbysiadau Cau a Gorchmynion Cau. A ddylid ymestyn y pŵer hwn i ddarparwyr tai cofrestredig?

Dylid

Na

Ddim yn gwybod

31. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei roi i gefnogi'r atebion a roesoch i'r cwestiynau blaenorol?? *Testun Agored (250 o eiriau)*

Roedd yr Aelodau'n meddwl, trwy ganiatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wneud cais am Hysbysiadau Cau a Gorchmynion Cau, y gallai hyn alluogi troi tenantiaid allan dros dro a allai arwain at gael gwell dealltwriaeth o ymddygiad. Mae'n bosibl y bydd hyn yn caniatáu i ymyriadau gael eu cynnal ac o ganlyniad gallai atal dadfeddiannu llawn a pharhaol, a allai fel arall effeithio'n negyddol ar aelodau eraill o'r teulu. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes plant neu frodyr a chwiorydd iau a allai gael eu heffeithio'n negyddol pan mai'r unig opsiwn yw troi allan yn llawn. Dylai hefyd leihau'r baich ar y partneriaid eraill wrth ddiwygio rôl y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n debygol o fod yn gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu a/neu gynghorau ar hyn o bryd.

Gwaharddebau Sifil

32. Ar hyn o bryd does dim pŵer arestio ar gael, heb ddefnyddio bygythiad o drais neu risg sylweddol o niwed, wrth orfodi Gwaharddeb Sifil. A ddylid ymestyn y pŵer i arestio i bob achos o dorri Gwaharddeb Sifil?

Dylid

Na

Ddim yn gwybod

33. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei roi i gefnogi'r atebion a roesoch i'r cwestiynau blaenoro?

Testun Agored (250 o eiriau)

Teimlai pawb a oedd yn ymgysylltu â Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru y dylid ymestyn y pŵer arestio i bob achos o dorri Gwaharddebau Sifil. Fodd bynnag, awgrymwyd hefyd y dylid monitro pob achos o dorri amodau.

Cynllun Achredu Diogelwch Cymunedol

34. Mae'r Cynllun Achredu Diogelwch Cymunedol yn caniatáu Prif Gwnstabiad i achredu pobl gyflogedig mewn swyddi sydd yn cyfrannu tuag at gynnal a gwella diogelwch cymunedol gyda phwerau cyfyngedig ond sydd wedi eu targedu. A ddylai'r ystod yma o bwerau gael eu hymestyn i gynnwys pwerau yn Neddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014?

X Dylid

Na

Ddim yn gwybod

35. Pa arfau a phwerau ydych o'r farn y dylid eu cynnwys o Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014?

x Pwerau Gwasgaru

x Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus

x Hysbysiadau Gwarchod y Gymuned

x Pwerau Cau

x Gwaharddebau Sifil

x Gorchmynion Ymddygiad Troseddol

Ddim yn gwybod

Ni ddylid cynnwys arfau a phwerau pellach

36. Oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei roi i gefnogi'r atebion a roesoch i'r cwestiynau blaenorol?

Testun Agored (250 o eiriau)

Cytunodd ein haelodau mewn egwyddor ond teimlent na fyddai'n gweithio'n ymarferol. Rhannwyd enghraifft o brofiad blaenorol o fewn y Bartneriaeth Gymunedol lle'r oedd achrediad ar gael, ond anaml iawn y'i defnyddiwyd. Mynegwyd pryder y gallai hyn arwain at dreulio amser yn sefydlu Cynllun sy'n mynd ag amser ac adnoddau i'w ddilyn i fyny ac na fydd byth yn cael ei ddefnyddio gan y rheiny yn y cymunedau. Trafodwyd y mater yn ymwneud ag adnoddau, gan gynnwys cyllid; mynegwyd pryder ynghylch sut y gellid cyflawni hyn yn ymarferol, a theimlwyd y byddai'n hynod o anodd heb adnoddau canolog.